**Hunanasesiad i baratoi ar gyfer asesu i ba raddau mae Awdurdodau Lleol (ALl) yn barod am y Rolau, Cyfrifoldebau a Dyletswyddau sy'n cael eu hamlinellu yng Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Drafft Cymru**

**Awdurdod LLeol: ____________________________** **Diweddarwyd/Cwblhawyd gan____________________** **Dyddiad: / / 20__**

*Cyflwyniad*

*Mae gan awdurdodau addysg ac asiantaethau perthnasol ddyletswydd i ystyried y cod (fersiwn derfynol ar gael ddiwedd Gwanwyn 2021) wrth gyflawni eu swyddogaethau. Rhaid i awdurdodau addysg ac asiantaethau priodol sicrhau fod eu polisïau, eu harferion a'u gwasanaethau gwybodaeth a chyngor yn ystyried gofynion cyfreithiol y Ddeddf yn llawn. Dylai awdurdodau addysg ac asiantaethau sy'n ymwneud â chynghori neu gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd, annog a chefnogi eu gweithwyr i ddeall cynnwys y cod drafft a deall gofynion y ddeddf mewn perthynas â'u gwaith o ddydd i ddydd. .*

*Cynhyrchwyd yr offeryn hunanasesu hwn i'ch cefnogi chi (ALl) i asesu pa mor barod yr ydych ar hyn o bryd i allu gweithredu'r Cod Drafft. Bydd defnyddio'r offeryn yn eich galluogi i wneud y canlynol:*

- *Asesu eich effeithiolrwydd cyfredol*
- *Gwerthuso'r cynnydd a wnaed eisoes*
- *Cael gwell dealltwriaeth o'r meysydd sydd angen eu gwella*
- *Galluogi uwch arweinwyr i ddeall y cryfderau presennol a'r meysydd sydd angen eu gwella*

*Bydd hefyd yn rhoi trosolwg rhanbarthol o barodrwydd awdurdodau lleol ar gyfer gweithredu'r diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol.*

*Crëwyd yr offeryn hunanasesu hwn gyda'r bwriad o'i ddarllen a'i ddefnyddio ar sgrin. Trwy gydol yr offeryn, mae datganiadau i'ch cynorthwyo i werthuso eich dulliau ymarfer yn eu herbyn ac mewn perthynas â disgwyliadau'r Cod Drafft gan ddefnyddio dull sgorio Gwyrdd (cywir / ar y trywydd iawn). Bydd yr offeryn hunanasesu hwn yn caniatáu ichi ymestyn y sgôr gychwynnol i werthusiad manylach, i ddechrau cynllunio gwelliannau a chamau gweithredu a chynhyrchu datganiadau sefyllfa. Noder fod tudalennau 7,8 a 9 yn atodiadau sy'n cynnwys Ystyriaethau sy'n deillio o'r Cod Gorfodol Drafft. Bydd clicio ar y penawdau sydd wedi eu tanlinellu yn y golofn 'gofynion cydymffurfio' yn eich dargyfeirio'n awtomatig at yr adran berthnasol sy'n rhestru ystyriaethau penodol pellach y'i disgrifir yn y Cod Drafft.*

*Ar ôl cwblhau'r offeryn hunanasesu, er mwyn sicrhau eich bod chi (ALl) yn cydymffurfio â'r rheoliadau rydym yn cynnig y dylid cwblhau'r tasgau canlynol:*

- *Creu 'tabl gweithredu' o fewn y drydedd golofn isod.*
- *Ymgorffori y gweithredoedd a nodwyd mewn cofrestr risg (templed wedi'i gynnwys yn atodiad 2)*

| Gofynion Cydymffurfiaeth | Mesurau Cydymffurfiaeth | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| **Pennod 2,3,6,9,10**<br>**Dull Seiliedig ar Hawliau / Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc**<br><br>*Rhaid ichi wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r drefn ADY.*<br><br>*Rhaid ichi gynnwys a chefnogi plant, pobl ifanc a'u rhieni* | • **Rhanddeiliaid** yn deall pwrpas y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a'r rhaglen drawsnewid ehangach | |
| | • Cydweithio â **phartneriaid allweddol** | |
| | • **Rhanddeiliaid** yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau | |
| | • Ymarferwyr ALl yn cwblhau hyfforddiant **Haen 1 Eliesha** Llywodraeth Cymru | |
| | • Uwch ymarferwyr ALl yn cwblhau Hyfforddiant **Haen 4 Eliesha** Llywodraeth Cymru (Prif Weithredwyr) | |
| | • Newidiadau yn cael eu cyfleu i **blant, eu rhieni a phobl ifanc.** | |
| | • Datblygu canllawiau i egluro i **blant, pobl ifanc a rhieni** sut y bydd y symud o **AAA i ADY** ac o **ddatganiadau i CDUau** yn gweithio yn ardal yr awdurdod lleol | |
| | • Ymgynghori â **phlant, pobl ifanc a rhieni** . | |
| | • **Cynllun Strategaeth Cyfathrebu** mewn lle | |
| | • Trefniadau mewn lle ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol | |
| | • Trefniadau mewn lle ar gyfer datrys anghydfodau | |
| | • Gwybodaeth glir am y gwasanaethau lleol sydd ar gael | |

| | | |
|---|---|---|
| **Pennod 4**<br>**Dyletswyddau i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau**<br><br>*Rhaid ichi roi sylw priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau*<br>*Rhaid bod gennych ymwybyddiaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i pherthynas â hygyrchedd a derbyniadau ynghyd â chynhwysiant ac amrywiaeth.* | • Gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o Gonfensiwn Y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth weithredu swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc | |
| | • Gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'r protocol dewisol cysylltiedig, wrth weithredu swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc anabl. | |
| **Pennod 5**<br>**Dyletswydd i adolygu'n barhaus y ddarpariaeth addysg ychwanegol**<br><br>*Rhaid ichi adolygu'n barhaus y trefniadau a wneir gennych chi'ch hun a chan gyrff llywodraethol yr* | • Adolygiad o'r **Ddarpariaeth Addysgu Ychwanegol** (ADY) i sefydlu a yw'r Ddarpariaeth ADY a ddarperir yn yr ardal yn ddigonol i ddiwallu anghenion cyffredinol y boblogaeth o ddysgwyr ag ADY.(Noder -*Dylid cynnal adolygiadau mewn ffyrdd a fydd yn eich galluogi i asesu anghenion tebygol yn y dyfodol, cynllunio ar gyfer gofynion darpariaeth yn y dyfodol, ystyried comisiynu cynlluniau ymlaen llaw)* | |
| | • Coladu / Darparu tystiolaeth i ba raddau y mae'r canlynol ar gael ym mhob ysgol*:*<br>*• Addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr unigol ag ADY • Addasiadau rhesymol priodol i alluogi mynediad i amgylchedd yr ysgol, cwricwlwm a chyfleusterau ar gyfer dysgwyr anabl • Ymyrraeth wedi'i dargedu a* | |

| | | |
|---|---|---|
| *ysgolion a gynhelir yn eich ardal, ar gyfer plant a phobl ifanc (5.1).*<br><br>*Rhaid sefydlu a chynnal cofrestr o'r rhai sydd â rhyw fath o anabledd, lle mae natur yr anabledd yn golygu ei bod yn debygol y bydd gan y dysgwr ADY.* | *chefnogaeth i ddysgwyr ag ADY • Systemau effeithiol ar gyfer monitro cynnydd a chyflawniad dysgwyr ag ADY a'u cynnwys ym mywyd beunyddiol yr ysgol • Trefniadau ar gyfer cynnwys arbenigwyr lle bo angen • Trefniadau ar gyfer adolygu effeithiolrwydd ymyriadau a ddefnyddir i gefnogi dysgwyr ag ADY a sgiliau ac arbenigeddau staff • Trefniadau ar gyfer cynnwys dysgwyr a rhieni ym mhob cam* | |
| | • Ystyriaeth o ddigonolrwydd y **Ddarpariaeth Addysgu Ychwanegol yn y Gymraeg** (5.3) | |
| | • Arweiniad i ysgolion ar ba ddarpariaeth y byddai disgwyl fel arfer Iddynt gael ei gynnig i **blant a phobl ifanc ag ADY** a chyhoeddi hynny.(Polisi ADY a map darpariaeth ALl) | |
| | • Adnabod arfer gorau, datblygu astudiaethau achos a rhannu. | |
| **Pennod 8 Dyletswyddau mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru** | • Dynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Ran 2 o'r Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir gan Awdurdod Lleol. Dyma'r **Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar** ('SAADY y Blynyddoedd Cynnar') (8.38) | |
| | • Sefydlu arferion a threfniadau gweithio cydweithredol effeithiol gydag eraill sy'n gweithio gyda phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir gan Awdurdod Lleol yn ardal yr awdurdod lleol. | |
| | • Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth addysgwyr cyn-ysgol o’r maes ADY | |
| | • Adolygu prosesau a phrotocolau cyfredol | |
| | • Datblygu arweiniad, cyngor a chefnogaeth ar gyfer lleoliadau a meithrinfeydd | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Prosesau i ddelio gyda'ch dyletswydd i baratoi **Cynllun Datblygu Unigol –(CDU) ar gyfer plentyn o dan oedran ysgol gorfodol** nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir gan Awdurdod Lleol | |
| **Pennod 9 Dyletswyddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru** | • Cefnogi ysgolion i wreiddio ac atgyfnerthu datblygiadau yn y maes **Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn** (Person Centred Practice – PCP) | |
| | • Cefnogi ysgolion i benderfynu ar **osod disgyblion ar gofrestrau ADY yn briodol** | |
| | • Meddu ar eglurder a chytundebau ynghylch **ymateb graddedig a meini prawf ar gyfer CDUau** sy'n cael eu cynnal gan leoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion a'r rhai sydd i'w cynnal gennych chi (ALl) | |
| | • Cyhoeddi cyfres o egwyddorion a fydd yn berthnasol wrth benderfynu a yw'n rhesymol i ysgol **sicrhau'r Cynllun Anghenion Ychwanegol** sydd ei angen gan blentyn neu berson ifanc yntau a ddylai'r awdurdod lleol wneud hynny(9.45) | |
| | • Datblygu cynllun camau/ gweithredu ar gyfer **trosi datganiadau yn Gynlluniau Datblygu Unigol** | |
| | • Datblygu arweiniad ac adnoddau i hwyluso ysgolion i weithredu'r system CDU newydd | |
| **Pennod 10 Dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc mewn Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)** | • Sefydlu dulliau **cyfathrebu** effeithiol ac effeithlon **rhwng lleoliadau**/ darparwyr **ALl ac ôl 16** | |
| | • Trefniadau trosglwyddo mewn lle ar gyfer **dysgwyr ôl-16 ag ADY** | |
| | • Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau lleoliadau | |
| | • **Gweithio gyda SABau** i ddatblygu darpariaeth leol / reolaidd (lle bo hynny'n bosibl) | |
| | • Nodi nifer y **bobl ifanc ag ADY** a fydd yn debygol o fod angen lleoliadau arbenigol bob blwyddyn? | |
| | • **Gwasanaethau Eirioli Ôl 16** a chamau sydd mewn lle i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau a phontio | |
| **Pennod 11 Dyletswyddau mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad** | • Gwybodaeth am y cyfrifoldebau er mwyn gallu cydymffurfio â chanllawiau ar gyfer<br>- Penderfynu a oes ADY gan **blentyn** oedran ysgol gorfodol nad yw'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru | |

| | | |
|---|---|---|
| **ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir**<br><br>-<br><br>-<br><br>**Pennod 12**<br>**Dyletswyddau mewn perthynas â pherson ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir neu SAB** | - Paratoi CDU ar **gyfer plentyn** nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir, sydd ag ADY<br>- **Lleoliadau mewn ysgolion annibynnol (11.55 )**<br>- Penderfynu a oes ADY gan **berson ifanc** nad yw mewn ysgol a gynhelir neu SAB<br>- Penderfynu a ddylid paratoi CDU ar gyfer **person ifanc** sydd ag ADY nad yw mewn ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru | |
| **Pennod 13**<br>**Cynnwys CDU**<br><br>-<br><br>-<br><br>**Pennod 14**<br>**Cynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal** | • Gwybod beth yw **CDU** | |
| | • Gwybod beth sydd rhaid ei **gynnwys** mewn **CDU** | |
| | • Gwybod beth sydd rhaid ei gynnwys mewn CDUau ar gyfer **plant sy'n derbyn gofal** | |
| | • Canllawiau sut i gwblhau **CDU statudol a** gynhyrchwyd | |
| | • Lleoliadau a rhanddeiliaid yn deall athroniaeth ac ethos **ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (PCP)** | |
| | • Hyfforddiant a hyrwyddo **Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn** wedi cael ei gyflwyno ar draws yr Awdurdod Lleol | |
| | • Lleoliadau wedi derbyn hyfforddiant ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn | |
| | • Sicrhau fel arfer dda fod **proffiliau un dudalen** ar gyfer pob dysgwr | |
| | • Sicrhau fod gan ysgolion systemau trylwyr mewn lle i ofalu fod ansawdd eu gwaith yn uchel a'u bod yn dilyn **Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr Unigolyn** a **deilliannau ar gyfer pob dysgwr ag ADY** | |

| | | |
|---|---|---|
| **Pennod16**<br>**Adolygu a diweddaru CDUau**<br><br>**Pennod 17**<br>**Ailystyriaethau a chymryd cyfrifoldeb am CDUau** | • Creu canllaw ar gyfer Cyfarfod **Adolygu CDU** i Ysgolion a Sefydliadau (yn cynnwys prosesau, llinell amser ar gyfer y broses, arweiniad ar gynnal adolygiad, pwrpas adolygiad) | |
| **Pennod 18**<br>**Cyfarfodydd am ADY a CDUau** | • Creu canllawiau ar egwyddorion arferion da i'w dilyn ym mhob cyfarfod (Yn gysylltiedig â Phennod 16/17) | |
| **Pennod 19**<br>**Cynllunio ar gyfer a chefnogi trosglwyddo** | • Asesu capasiti ac adnoddau | |
| | • Arferion a phrosesau mewn lle i weithredu systemau sy'n cefnogi trosglwyddo i addysg ôl-16 | |
| *Gwybodaeth i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n trosglwyddo* | • Creu taflenni hawdd eu darllen sy'n darparu gwybodaeth am ba gefnogaeth sydd ar gael a beth y gellir ei ddisgwyl yn ystod y broses dderbyn (gan gynnwys trosglwyddo) | |
| *19.12 Rhaid i chi wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY.* | • Gwybodaeth ar wefan yr Awdurdod am **ADY, cefnogaeth ADY a chyfleoedd trosglwyddo** | |
| **Pennod 20 Trosglwyddo CDU**<br>**Pennod 21 Rhoi'r gorau i gynnal CDU**<br>**Pennod 22 Plant a phobl ifanc sydd o dan orchmynion cadw**<br>**Pennod 23 Plant a phobl** | • Yn wybodus am.. | |

| | | |
|---|---|---|
| **ifanc mewn amgylchiadau penodol** | | |
| **Pennod 25 Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol**<br><br>*Bydd y system newydd yn canolbwyntio ar sicrhau, fod unrhyw anghytundebau sydd yn codi am CDU neu'r ddarpariaeth sydd ynddo yn cael eu hystyried a'i datrys ar y lefel fwyaf lleol bosibl.* | • Trefniadau / prosesau ar gyfer osgoi a **datrys anghytundebau** mewn lle (25.3 / 25.4) Y rhain wedi derbyn cyhoeddusrwydd eang. | |
| | • Trefniadau ar gyfer **darparu** gwasanaethau **eirioli annibynnol** mewn lle. (25.5) Y rhain wedi derbyn cyhoeddusrwydd eang. | |

**FERSIWN RHEOLI**

| Dyddiad | Gan bwy | Manylion y diwygiad |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

ATODIAD 1:

Ystyriaethau o'r Cod Gorfodol Drafft

| | |
|---|---|
| **Pennod 2,3,6,9,10: Dull Seiliedig ar Hawliau / Cynnwys a chefnogi plant, pobl ifanc a'u rhieni**<br><br>Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant. | *3.14 Ystyriwch sut y gallwch annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan ym mhob agwedd o'r system ADY mewn dulliau ystyrlon*<br>*3.16 Ystyriwch wahanol ffyrdd o gyfathrebu wrth ddarparu gwybodaeth i'r plentyn neu'r person ifanc, a chael sgwrs am hynny gyda'r plentyn neu'r person ifanc, i hwyluso eu cyfranogiad*<br>*3.29 Ystyriwch pa gymorth y byddwch chi'n ei ddarparu i rieni i'w galluogi i gymryd rhan mor llawn â phosib mewn cyfarfodydd priodol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â pharatoi neu adolygu CDU ar gyfer eu plentyn.*<br>*6.8 Dylai'r wybodaeth sydd ar gael fod yn ffeithiol gan ddefnyddio iaith y gall plant, pobl ifanc a'u ei ddeall yn hawdd.*<br>*6.9 Os penderfynwch gyflawni eich dyletswyddau mewn perthynas â chynnig cyngor a gwybodaeth trwy gontractio darparwr gwasanaeth allanol i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, dylech: • hysbysu plant, pobl ifanc a'u rhieni fod sefydliad arall yn darparu cyngor a gwybodaeth ar ran yr awdurdod lleol.*<br>*6.10 Dylid cynnig gwybodaeth a chyngor i blant, pobl ifanc a'u rhieni sydd yn eu helpu i fod yn ymwybodol ac yn deall: • beth yw ADY;• eu hawliau o dan y system ADY;• y gwahanol asiantaethau dan sylw a'u rolau : • trosglwyddo a chynllunio trosglwyddo;• y gwahanol weithdrefnau cwyno;• gwasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau ac eiriolaeth annibynnol a • sut i apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol neu'r SAB, gan gynnwys yn achos penderfyniadau ysgol, neu CDUau a gynhelir gan ysgol a gynhelir, sut i ofyn i ysgol neu awdurdod lleol i ailystyried y mater.*<br>*9.61 Pan nad yw'r person ifanc yn cydsynio i benderfyniad gael ei wneud, rhaid cofnodi hyn. Dylid cael gweithdrefnau priodol mewn lle i hwyluso hyn, a allai gynnwys cael y person ifanc yn llofnodi i gadarnhau nad yw'n rhoi caniatâd. Rhaid i'r wybodaeth a chyngor a roddir fod yn ddiduedd.*<br>*Dylai pawb sy'n ymwneud â darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag ADY weithio gyda'i gilydd er budd gorau'r plentyn neu'r person ifanc*<br>*Dylai barn, dymuniadau a theimladau'r plant, pobl ifanc a'u rhieni fod wrth wraidd yr holl brosesau gwneud penderfyniadau.*<br>*Dylid annog a chefnogi gweithwyr (a fydd yn ymwneud â chefnogi a chynghori) i ddeall cynnwys y cod a deall sut i'w gymhwyso yn eu gwaith o ddydd i ddydd.* |

| | |
|---|---|
| **Pennod 4: Dyletswyddau i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau**<br>*Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.* | *Dylid darllen y cod Drafft ochr yn ochr â deddfwriaeth a pholisïau eraill lle bo hynny'n berthnasol*<br><br>***4.7 Rhoi sylw dyledus i'r Confensiynau wrth gynllunio ar gyfer gweithredu swyddogaethau o dan y Ddeddf sy'n ymwneud â phlentyn*** neu ***berson ifanc.*** |
| **Pennod 5: Dyletswydd i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol**<br>*Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.* | *5.2 Ystyried y CDY y gellir eu darparu'n rhesymol gan eraill megis Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG).*<br>*5.9 A oes gennych ddarpariaethau o'r math, nifer ac ansawdd cywir i ddiwallu anghenion y boblogaeth ag ADY ar hyn o bryd ac yn y dyfodol? Oes camau y dylid eu cymryd i unioni unrhyw sefyllfa annigonol.*<br>*5.13 Rhoi arweiniad i ysgolion ar ba ddarpariaeth y byddai disgwyl i ysgolion ei darparu fel rheol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.*<br>*Cydweithio i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o sut y dylai darpariaeth o ansawdd dda ar gyfer dysgwyr ag ADY edrych.* |
| **Pennod 8: Dyletswyddau mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru**<br>*Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.* | *8.2 Bydd CDUau ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol ac nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir bob amser yn cael eu paratoi a'u cynnal gan awdurdod lleol.*<br>*8.42 Rôl y Cydlynydd Anghenion Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar.* |
| **Pennod 9: Dyletswyddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru**<br>*Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.* | *9.2 Rhaid paratoi a chynnal CDU lle mae anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn fwy difrifol neu'n gymhleth neu'n ysbeidiol. Y prif eithriadau yw pan fydd plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu pan fydd y plentyn neu'r person ifanc yn mynychu mwy nag un ysgol neu sefydliad arall ("cofrestriad / ymrestru deuol"). Yn yr achosion hyn, mae'r awdurdod lleol fel arfer yn gyfrifol am benderfyniadau a chynnal CDU waeth beth yw'r anghenion).* |
| **Pennod 10: Dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc mewn SAB** | *10.37 Atgyfeiriadau gan SAB i awdurdod lleol*<br>*10.46A Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes ADY gan berson ifanc mewn SAB*<br>*10.57 Penderfyniad awdurdod lleol nad oes ADY gan berson ifanc mewn SAB*<br>*10.63 Dyletswydd awdurdod lleol i baratoi CDU ar gyfer person ifanc mewn SAB sydd ag ADY* |

| | |
|---|---|
| [Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.] | *10.72 Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU a sicrhau'r CDU ar gyfer person ifanc mewn SAB sydd ag ADY*<br>*10.77 Dyletswydd awdurdod lleol i adolygu CDU ar gyfer myfyriwr SAB sydd ag ADY .* |
| **Pennod 11 a 12: Dyletswyddau mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir a dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir neu SAB**<br>[Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.] | *Bydd gwaith amlasiantaethol a thrawsadrannol yn hynod bwysig. Bydd dull cydgysylltiedig hefyd yn bwysig.*<br>*11.4 Pan fo dyletswydd ar awdurdod lleol i benderfynu a oes gan y plentyn ADY, rhaid iddynt ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwnnw ac, os oes angen CDU wedi hynny, i fod yn gyfrifol am ei baratoi .Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, dylai'r swyddog a ddynodir fod yn Gydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal(LACE) yr awdurdod lleol.* |
| **Pennod 13 a 14: Cynnwys CDU a chynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal**<br>[Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.] | *13.6 Ffurflen CDU orfodol*<br>*13.7 Gellir addasu arddull y ffurflenni.* |
| **Pennod 16 a 17: Adolygu a diwygio CDUau ac ailystyriaethau a chymryd cyfrifoldeb am CDUau**<br>[Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.] | *16.1 Dylai CDUau gael eu hadolygu yn flynyddol o leiaf*<br>*16.12 Rhaid i gorff sy'n gyfrifol am gynnal CDU ei adolygu cyn diwedd pob cyfnod adolygu.* |
| **Pennod 18: Cyfarfodydd am ADY a CDU**<br>[Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.] | *Cynnal cyfarfod (ydd) gan ddefnyddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; cymryd agwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gasglu a chyflwyno gwybodaeth.* |
| **Pennod 19: Cynllunio ar gyfer pontio a'i gefnogi**<br>[Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.] | *19.3 Gellir dod o hyd i wybodaeth ar drosglwyddo o wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc i wasanaethau iechyd meddwl oedolion mewn canllawiau a ddatblygwyd fel rhan o'r Rhaglen Gyda'n Gilydd i Blant a Phobl Ifanc; gellir dod o hyd i wybodaeth ar drosglwyddo o wasanaethau gofal iechyd* |

| | |
|---|---|
| | *plant i oedolion yng nghanllaw NICE a gellir dod o hyd i wybodaeth ar gefnogi trosglwyddiadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.* |
| **Pennod 20, 21, 22, 23: Trosglwyddo CDU a rhoi'r gorau i gynnal CDU i Blant a phobl ifanc o dan orchmynion cadw a Phlant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol**<br>*Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.* | *Yn wybodus am..* |
| **Pennod 25: Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol**<br>*Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.* | *Ystyriwch sut i wneud y canlynol:*<br>*• Codi ymwybyddiaeth o'r hawl sydd gan blant a phobl ifanc, sydd heb alluedd, i gael 'ffrind achos' os oes anghytundebau'n arwain at dribiwnlys*<br>*• Codi ymwybyddiaeth o'r hawl i bobl ifanc dros 16 oed a rhieni, sydd heb alluedd, gael eu cynrychioli er mwyn cynnig cefnogaeth i fynd ag achos i dribiwnlys*<br>*25.8 Rhaid i awdurdodau lleol hyrwyddo'r trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau, er enghraifft trwy sicrhau fod plant, pobl ifanc a'u rhieni yn derbyn manylion y trefniadau pan fyddant yn derbyn rhybudd o benderfyniad gan yr awdurdod lleol.*<br>*25.9 Rhaid i awdurdodau lleol hefyd sicrhau fod gwybodaeth am eu trefniadau ar gael ar eu gwefannau.* |

*ATODIAD 2:*

*Templed cofrestr risg*

| Rhif y risg | Risg | Tebygolrwydd | Camau gweithredu (cysylltiad i'r cynllun gweithredu) | Perchennog | Sylw ar y newidiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dull Seiliedig ar Hawliau / Cynnwys a chefnogi plant, pobl ifanc a'u rhieni | | | | |
| 2 | Dyletswyddau i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau | | | | |
| 3 | Dyletswydd i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol | | | | |
| 4 | Dyletswyddau mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru | | | | |
| 5 | Dyletswyddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru | | | | |
| 6 | Dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc mewn SAB | | | | |
| 7 | Dyletswyddau mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir a dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir neu SAB | | | | |
| 8 | Cynnwys CDU a chynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal | | | | |
| 9 | Adolygu a diwygio CDUau ac ailystyriaethau a chymryd cyfrifoldeb am CDUau | | | | |
| 10 | Cyfarfodydd am ADY a CDU | | | | |
| 11 | Cynllunio ar gyfer pontio a'i gefnogi | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Trosglwyddo CDU a rhoi'r gorau i gynnal CDU i Blant a phobl ifanc o dan orchmynion cadw a Phlant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol | | | | |
| 13 | Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol | | | | |